EBRILL 2023 – MAWRTH 2024

# Adroddiad Blynyddol



# THEATR CYMRU

# Gair gan Angharad a Steffan

Mae 2023-24 wedi bod yn flwyddyn fawr i Theatr Cymru ac ry'n ni'n falch iawn o rannu'r adroddiad yma, sy'n dathlu gwaith ein tîm o staff craidd a'r holl artistiaid a gweithwyr llawrydd sy'n hanfodol i'n cynyrchiadau ac i'r sector celfyddydol.

Yn y flwyddyn hon, wnaethom gyflwyno'r tymor cyntaf o gynyrchiadau dan arweiniad artistig Steffan – tymor oedd yn cynnwys 8 cynhyrchiad (3 ohonynt yn deithiau genedlaethol) a gwaith oedd yn llawn artistiaid arbennig yn dathlu'r iaith Gymraeg ac yn adrodd straeon ffres a phwysig am gymdeithas gyfoes.

Mewn blwyddyn lle ry'n ni wedi gweld ein cynulleidfaoedd yn dychwelyd i lefel cyn-COVID am y tro cyntaf, roedd hi'n brofiad gwych i gael ein henwebu fel Cynhyrchydd y Flwyddyn gan The Stage. Dyma'r tro cyntaf i gwmni iaith Gymraeg gael ei enwebu fel rhan o'r gwobrau ac mae hynny'n dyst i'r bwrlwm creadigol a llewyrchus ymhlith theatr Gymreig.

Hoffem ddiolch o galon i Gyngor Celfyddydau Cymru am eu cefnogaeth barhaus ac i chi, ein cynulleidfa, am ddod gyda ni ar y siwrnai yma.

Welwn ni chi'n fuan,

*Angharad a Steffan*

**Cyd-Brif Weithredwyr, Theatr Cymru**



# Theatr i Gymru

Nod Theatr Cymru yw cynnig amrywiaeth o brofiadau theatr Cymraeg eang eu hapêl ar lwyfannau ledled Cymru. Rhwng Ebrill 2023 a Mawrth 2024, llwyfannodd y cwmni 92 o berfformiadau mewn 24 lleoliad gwahanol – o faes yr Eisteddfod i ysgolion i theatrau a chanolfannau celfyddydol ledled Cymru – gan ddenu mwy na 16,000 o gynulleidfa.












> Dwi bellach yn gwybod nad ydy theatr llwyfan yn beth diflas i bobl crand, mae'n gallu bod yn noson allan wych sy'n llawn hwyl a chwerthin, yn gallu herio'ch meddwl a meddylfryd ... Diolch am agor drysau newydd i mi.
>
> Ymateb gan aelod o'r gynulleidfa ar ôl gweld tri o'n cynyrchiadau yn 2023-24



## Rhinoseros

★★★★ The Guardian

"The event of the year" Nation Cymru

Cafwyd canmoliaeth anhygoel i brif gynhyrchiad cyntaf Steffan Donnelly, Rhinoseros sef campwaith Eugene Ionesco, gyda'r addasiad cyntaf i'r Gymraeg gan Manon Steffan Ros.

Enwyd y cynhyrchiad ar restr The Stage Top 50 Plays 2023, Wales Arts Review's Best of Welsh Theatre 2023 ac ar Uchafbwynt Celfyddydol 2023 Nation Cymru a BBC Radio Cymru.



## Swyn

"Hollol hudolus, chwareus a mor agos-atoch. Dwli ar y plethu o ddawns/BSL a cherddoriaeth i rannu'r stori." Aelod o'r gynulleidfa

Yn ystod y gaeaf, daeth mwy na 2,400 ohonoch chi i wylio Swyn – cynhyrchiad i blant yn llawn stori a dawns, oedd yn cyfuno'r Gymraeg ac Iaith Arwyddion Prydain (BSL).

Yn seiliedig ar y llyfr 'Whimsy' gan Krystal S. Lowe, roedd Krystal hefyd yn perfformio gyda'r artistiaid Sarah Adedeji ac Aisha-May Hunte.

# Agor Drysau Trwy'r Celfyddydau

THEATR CYMRU

Trwy ein gwaith cyfranogi, ry'n ni'n cynnig cyfleoedd i bobl ledled Cymru brofi effaith drawsnewidiol creadigrwydd yn eu bywydau - i fwynhau, magu hyder a gwella iechyd ~a lles. Mae gwaith ymgyfranogi'r cwmni yn cynnwys gweithdai i grwpiau gwahanol, sgyrsiau sy'n gysylltiedig â'n sioeau, a gweithgareddau sy'n ymateb i alw gan gymunedau amrywiol.

**4,815**

o ymgyfranogwyr yn rhan o'n rhaglen cyfranogi yn 2023-24

**727**

o blant yn cymryd rhan yn ein Clybiau Drama

**2,500**

o blant wedi cymryd rhan mewn gweithdai ysgolion ledled Cymru






## Ar y Dibyn

Mae prosiect Ar y Dibyn, a sefydlwyd yn 2019, yn parhau i fynd o nerth i nerth. O dan ofal yr artist arweiniol Iola Ynyr, mae'r prosiect yn rhoi cyfle i bobl sydd wedi cael eu heffeithio gan ddibyniaeth - boed hynny'n bobl sy'n byw gyda dibyniaeth neu sy'n cefnogi pobl eraill gyda'u dibyniaeth - i ddod at ei gilydd a rhannu'r straeon hynny mewn ffordd greadigol.

> "Y cwbl nes i ei glywed a'i deimlo yn ystod y chwe pnawn hwnnw oedd cariad ac anogaeth. Ymgyfranogwr Ar y Dibyn"



## Criw Creu

Yn 2023, roedd Criw Creu yn ôl ac yn cynnig cyfle i ddisgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol o ddwy ysgol yn Sir Gâr, sef Ysgol Bro Myrddin ac Ysgol Uwchradd Y Frenhines Elisabeth, i ysgrifennu cerdd a chyfansoddi cerddoriaeth. Crëwyd ffilm o'r disgyblion yn perfformio'r gwaith a dangoswyd y ffilm yn Eisteddfod yr Urdd Sir Gâr.

> "It was a once in a lifetime experience, I enjoyed being creative with my friends.
>
> Ymgyfranogwr Criw Creu"

THEATR CYMRU



## Ie Ie Ie

Yn archwilio perthnasau iach, chwant a chaniatâd, roedd Ie Ie Ie yn cynnwys cyfweliadau gonest gyda phobl ifanc Cymru. Wrth greu'r sioe, cynhaliwyd cyfres o weithdai mewn 5 ysgol ledled Cymru i drafod profiadau'r bobl ifanc o ddelio gyda pherthnasau a'r amgylchedd ar-lein. Wrth ddatblygu'r cynhyrchiad a gweithio gyda'r cyfranogwyr ifanc ar draws y wlad, derbyniodd y cwmni hyfforddiant a chefnogaeth ymgynghorol gan y mudiad Brook Cymru, elusen iechyd rhywiol i bobl ifanc.

> Mae'r myfyrwyr wir yn gwerthfawrogi'r ffaith bod eu lleisiau nhw yn cael eu ystyried wrth fynd ati i greu darn o theatr cenedlaethol fel hyn.
>
> Ymateb un o'r athrawon oedd ynghlwm ag Ie Ie Ie

## Casgliad Dysgu

Mae Casgliad Dysgu, sef e-lyfrgell o adnoddau addysg ar-lein, yn parhau i dyfu gyda rhagor o gynyrchiadau yn cael eu hychwanegu yn gyson. Ers lansio yn 2020, mae Casgliad Dysgu yn adnodd i gefnogi darlithwyr, athrawon, myfyrwyr, disgyblion, addysgwyr a dysgwyr i wylio, astudio a mwynhau theatr Gymraeg.

> Mae [pecynnau addysg] mor defnyddiol i ni ym myd Addysg ac mae'r ffaith eich bod wedi llwyddo i gynnwys fideos a chlipiau o gynyrchiadau a chyfweliadau gymaint yn well i ni eto, ac yn rhoi mewnweledIad mwy ddadansoddol o gynhyrchiadau.

# Cyflogaeth ac Effaith Economaidd

THEATR CYMRU

Yn ogystal â chwarae rhan yng ngweithgareddau Cymraeg, mae Theatr Cymru yn chwarae rhan bwysig yn economi Cymru, yn enwedig mewn ardaloedd gwledig megis lleoliad ein pencadlys, a'r ardaloedd lle mae ein canolfannau teithiol. Mae'n darparu cyfleoedd cyflogaeth o ansawdd i bobl sy'n gweithio yn y sector theatr ac yn caffael nwyddau a gwasanaethau gan nifer o fusnesau bach a chanolig yng Nghymru sydd mor hanfodol i'n heconomi.



- **171** o gytundebau i weithwyr llawrydd, sef **£252,798** neu **1,690** o ddyddiau gwaith
- Yn ôl holiadur adborth gweithwyr llawrydd, roedd **100%** o'r ymatebwyr wedi mwynhau gweithio gyda Theatr Cymru
- Ymarfer a pherfformio mewn **14 o'r 22** sir yng Nghymru
- **£70,661*** wedi buddsoddi mewn cymunedau lleol trwy lety, bwyd a diod

*Gwerth ehangach o £127,190 yn ôl amcangyfrif gwerth ychwanegol gros (GVA) Deloitte



# Comisiynu a Datblygu Artistig

THEATR CYMRU

Wrth ddatblygu gwaith newydd yn y Gymraeg, ry'n ni'n ceisio adlewyrchu cymeriad a chymdeithas unigryw Cymru a chreu gwaith sy'n ymateb i gwestiynau mawr a thrafod heriau cymdeithasol. Yn 2023/24 roedd yn flaenoriaeth i ddatblygu gwaith gan leisiau newydd a lleisiau wedi eu tangynrychioli.

O'r 15 comisiwn a ddyfarnwyd, roedd:

**5**
comisiwn i ddramodwyr o'r mwyafrif byd eang

**3**
comisiwn i ddramodwyr anabl

Dros **50%**
o'r artistiaid dderbyniodd gomisiwn yn bobl LDHTC+, gyda 2 gomisiwn yn mynd i ddramodwyr traws

**66%**
o'r artistiaid a dderbyniodd gomisiwn yn fenywod



Ry'n ni'n gweithio i datblygu talent yn y sector theatr yng Nghymru, yn arbennig ymysg siaradwyr Cymraeg. Mae'n elfen bwysig o waith y cwmni er mwyn diogelu ein dyfodol, ac er mwyn cryfhau'r ddarpariaeth theatr a chelfyddydau Cymraeg eu hiaith yng Nghymru.



Rhan bwysig o’r gwaith datblygu artistig yw cynnal gweithdai a chyfnodau ymchwil a datblygu er mwyn rhoi cyfle i artistiaid brofi eu gwaith yn cael ei berfformio a datblygu sgiliau. Cynhaliwyd nifer o weithdai yn ystod 2023/24 gydag artistiaid sydd o dan gomisiwn.



## Kiki Cymraeg

Yng ngwanwyn 2024, cynhaliwyd wythnos o ymchwil a datblygu gyda Chymuned Ddawnsfa Cymru (Welsh Ballroom Community) ar brosiect Kiki Cymraeg. Gan gyfuno dawnsfa, theatr a pherfformiadau gair llafar, roedd y gweithdai yn archwilio’r hyn y mae’n ei olygu i fod yn cwiar yng Nghymru heddiw – gyda pherfformiad sgratsh i gynulleidfa o fwy na 100 yn Theatr y Sherman, Caerdydd.

THEATR CYMRU

## Gwneud Theatr yn Wyrdd

Fel cwmni cenedlaethol, mae gennym ni gyfrifoldeb i gyflawni'n gwaith mewn ffyrdd mwy cynaliadwy, i leihau ein ol-troed carbon, ac i gychwyn a hwyluso sgyrsiau a syniadau sy'n ymdrin â'r argyfwng hinsawdd a'r effaith mae'n ei gael ar fywyd yng Nghymru a thu hwnt heddiw.



Yn y blwyddyn 2023-24:

- **58%** o wisgoedd a **65%** o propiau wedi eu prynu yn ail law
- Pob cynhyrchiad wedi cyrraedd gwaelodlin canllawiau'r Llyfr Gwyrdd y Theatr, sy'n sicrhau bod ein cynyrchiadau yn gynaliadwy.
- Symud cartref ein cwmni i'r Egin yng Nghaerfyrddin, adeilad sydd wedi derbyn tystysgrif BREEAM Excellent dros gynaliadwyedd.
- Gweithredu fel swyddfa di-bapur ac wedi trosglwyddo ein systemau TG i gyd i lwyfannau cwmwl

## Prosiect 40°C

Mae ein hymrwymiad at fynd i'r afael â'r argyfwng hinsawdd yn mynd ymhell tu hwnt ein prosesau creadigol a gweinyddol.

Ym mis Awst 2023, cychwynnodd Prosiect 40°C gyda chyfnod preswyl Gwreiddioli, gyda chefnogaeth gan Gyfoeth Naturiol Cymru. Dan ofal yr artist arweiniol a'r curadur Dylan Huw, daeth 5 artist at ei gilydd yng Nghanolfan y Dechnoleg Amgen ger Machynlleth i ystyried safbwyntiau amrywiol ar groestoriadau'r argyfwng hinsawdd gyda phob dim arall sy'n diffinio bywyd heddiw.



> “Wnes i weld hi fel cyfle gwych i ddysgu mwy ac archwilio ffyrdd newydd o greu.” Artist Prosiect 40°C

# Cydweithio a Phartneriaethau

Rhan bwysig o waith y cwmni yw gweithio mewn partneriaeth gyda chwmnïau ac unigolion o fewn y sector, gan gynnig cefnogaeth ac arweiniad, ac adnabod a manteisio ar gyfleoedd i weithio ar draws sectorau gwahanol er mwyn dangos budd ac effaith gadarnhaol y celfyddydau.

Yn ogystal â chreu a chyflwyno rhaglen o gynyrchiadau ein hunain, ry'n ni'n darparu cefnogaeth i gynyrchiadau gan gwmnïau eraill. Dyma ddau gynhyrchiad wnaethon ni gefnogi yn ystod 2023/24:

- **Mewn Cymeriad: Betty Campbell**
- **Theatrau Sir Gâr: Golygfeydd o'r Pla Du**




# Diolch

Diolch i bawb sydd wedi gweithio gyda ni eleni - ein noddwyr, partneriaid, artistiaid a gweithwyr llawrydd. Ac wrth gwrs, diolch o galon i'n cynulleidfaoedd am eu cefnogaeth.